



Partneriaeth Dysgu Proffesiynol Yr Athrofa  
Yr Athrofa Professional Learning Partnership

*Trawsnewid Addysg Gyda'n Gilydd Transforming Teaching Together*



Partneriaeth Dysgu Proffesiynol Yr Athrofa  
Yr Athrofa Professional Learning Partnership

# Dysgwyr a'u Hawliau

## Hawliau Plant

### ECAD4016C

[Stream Children's Commissioner for Wales | Listen to Mae Gennym Hawliau - We Stand Together playlist online for free on SoundCloud](#)

# NOD

## *AIM*

- Cyflwyniad i hawliau plant
- Pwysigrwydd gwranddo ar lais y dysgwyr a'u cyfranogiad yn y broses ddysgu
- *An introduction to children's rights*
- *The importance of listening to the voice of the child and their participation in the learning process*

# DYSGWYR A'U HAWLIAU

## *LEARNERS AND THEIR RIGHTS*



[www.complantcymru.org.uk](http://www.complantcymru.org.uk)

Hawliau Plant yng Nghwricwlwm Cymru 2022 - Children's  
Commissioner for Wales ([complantcymru.org.uk](http://complantcymru.org.uk))

# PAM MAE HAWLIAU PLANT A PHOBL IFANC YN BWYSIG?

## *WHY ARE CHILDREN AND YOUNG PEOPLE'S RIGHTS SO IMPORTANT?*

1. Mae plant yn fwy agored i gael eu cam-drin a'u hecsbloetio
2. Yn dibynnu ar eu hoed, mae plant yn ddibynnol ar oedolion yn llwyr neu i raddau helaeth – nid yw eu lles pennaf bob amser yn cael ei ystyried
3. Mae plant yn wynebu llu o derfynau oed cyfreithiol pryd y bernir eu bod nhw'n gallu gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain
4. Mae plant yn aml heb lais.

(Comisiynydd Plant Cymru, 2019)

1. *Children are more vulnerable to abuse and exploitation*
2. *Dependent on age, children are entirely or mostly dependent on adults – best interests not always considered*
3. *Children face an array of legal minimum ages at which they are considered capable of making decisions for themselves*
4. *Children are often voiceless.*

(Children's Commissioner for Wales, 2019)

# TASG 5 (5 munud)

## *TASK 5 (5 minutes)*

1. Ystyriwch yr hawliau sydd gennych chi fel oedolyn a gwnewch restr o rai ohonynt.
2. Oes ambell un o'r hawliau hyn yn bwysicach na'i gilydd i chi?
3. Beth am hawliau plant? A oes ganddynt hwy yr un hawliau a chi fel oedolyn?

1. *Consider the rights you have as an adult and make a list of some of them.*
2. *Are some of them more important than others to you?*
3. *What about children's rights? Do they have the same rights as you as an adult?*



**Rocio Cifuentes, y Comisiynydd Plant**



## Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021

Mae hawliau dynol plant wedi'u cynnwys yn Neddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, sy'n rhoi dyletswydd ar ysgolion a lleoliadau i hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau ymhlith y rhai sy'n darparu addysgu a dysgu.



<https://youtu.be/G4ve9j4thII>

# CONFENSIWN Y CENHEDLOEDD UNEDIG AR HAWLIAU PLANT (CCUHP) *UNITED NATIONS CONVENTION ON THE RIGHTS OF THE CHILD* (UNCRC)

- Mabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2004
- 54 o erthyglau
- Erthyglau 1–42 yn berthnasol i hawliau plant a phobl ifanc 0-18
- Erthyglau 43-54 yn berthnasol i lywodraethau o ran sut y gweithredir yr hawliau
- Dyletswydd ar bawb sydd yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc i sicrhau bod yr hawliau hyn yn cael eu diwallu

**DARLLENWCH YR ERTHYGLAU AR Y POSTER HWN:**  
[9681-CCfW-Know-Your-Rights-Poster-Artwork-Welsh\\_AW.pdf](https://www.unicef.org.uk/rights-respecting-schools/wp-content/uploads/sites/4/2017/01/Summary-of-the-UNCRC.pdf)

A oes rhai o'r rhain yn bwysicach na'i gilydd? Pa rai?  
Rhestrwch y 5 pwysicaf i chi fel darpar athro/athrawes.

- *Ratified by the Welsh Government in 2004*
- *54 articles*
- *Articles 1–42 are relevant to children and young people's rights (0-18)*
- *Articles 43-54 are relevant to authorities and refer to how these rights are implemented*
- *A duty on all those working with children and young people to ensure that these rights are being implemented*

**READ THE ARTICLES ON THIS POSTER:**

<https://www.unicef.org.uk/rights-respecting-schools/wp-content/uploads/sites/4/2017/01/Summary-of-the-UNCRC.pdf>

Are some of these more important than others?  
Which ones? List the 5 most important ones for you as a student teacher.



Comisiynydd  
Plant Cymru  
Children's  
Commissioner  
for Wales

Gwrando. Cefnogi. Codi Llais.

Helo, fy enw i yw Rocio  
Cifuentes a fi fydd  
Comisiynydd Plant Cymru  
o Ebrill 2022 tan Ebrill 2029.

Fy ngwaith i yw:

Cefnogi ti i ddysgu mwy am dy hawliau.

Gwrando ar beth sy'n bwysig i ti.

Cynghori ti, a'r rheiny sy'n gofalu  
amdanat ti, os wyt ti'n meddwl dy  
fod di wedi dy drin yn annheg.

Dylanwadu ar eraill i sicrhau bod  
bob plentyn yn derbyn eu hawliau.

Siarad i fynw drostot ti ar faterion  
pwysig.



#### Dysgu mwy am hawliau

Os ydych yn berson ifanc neu'n  
oedolyn sy'n gweithio gyda phobl  
ifanc, mae gennym lawer o  
adnoddau ar ein gwefan i'ch  
helpu i ddysgu mwy am hawliau.  
Gallwch hefyd ymuno ag un  
o'n cynlluniau llysgenhaden;  
mae cannoedd o ysgolion a  
chlybiau ledled Cymru eisoes



# DEALL EICH HAWLIAU

**Rhestr o hawliau sydd gan bob  
plentyn a pherson ifanc yng  
Nghymru ac ar draws y byd yw  
Confensiwn y Cenhedlaedd Unedig  
ar Hawliau'r Plentyn, neu'r CCUHP.**

#### Erthygl 1:

Mae gan bawb o dan 18 oed yr hawliau yma.

#### Erthygl 2:

Mae gan bob plentyn yr hawliau yma waeth beth.  
Dylai blant cael eu trin yn gyfartal.

#### Erthygl 3:

Dylai oedolion bob amser wneud yr hyn sydd orau i ti.

#### Erthygl 4:

Dylai'r Llywodraeth ofalu bod yr hawliau hyn ar gael  
i bob plentyn a pherson ifanc.

#### Erthygl 5:

Dylai'r Llywodraeth barchu hawl dy deulu i dy helpu  
i wybod am dy hawliau.

#### Erthygl 6:

Mae gennyt ti'r hawl i fywyd, i dyfu i fynw ac i  
gyrraedd dy botensial llawn.

#### Erthygl 7:

Mae gennyt ti'r hawl i gael enw a chenedligrwydd.

#### Erthygl 8:

Mae gennyt ti'r hawl i hunaniaeth.

#### Erthygl 9:

Mae gennyt ti'r hawl i fod gyda dy rieni os mae  
dyna sydd orau i ti.

#### Erthygl 10:

Mae gennyt ti'r hawl i weld dy deulu os ydynt yn  
byw mewn gwlad arall.

#### Erthygl 11:

Mae gennyt ti'r hawl i beidio â chael dy gymryd  
o'r wlad yn anghyfreithlon neu i gael dy gipio.

#### Erthygl 12:

Mae gennyt ti'r hawl i rywun wrando arnat ac  
i gael dy gymryd o ddifri.

#### Erthygl 13:

Mae gennyt ti'r hawl i ddarganfod a rhannu  
gwybodaeth ac i ddweud dy farn.

#### Erthygl 14:

Mae gennyt ti'r hawl i ymarfer dy grefydd dy  
hun, cyhyd ac nad wyt ti'n atal pobl rhag derbyn  
eu hawliau.

#### Erthygl 15:

Mae gennyt ti'r hawl i gwrdd â ffrindiau ac ymuno  
â grwpiau.

#### Erthygl 16:

Mae gennyt ti'r hawl i breifatrwydd.

#### Erthygl 17:

Mae gennyt ti'r hawl i gael gwybodaeth onest,  
ddealladwy gan y cyfryngau, cyhyd â bod e'n ddiogel.

#### Erthygl 18:

Mae gennyt ti'r hawl i gael dy fagu gan y 2 riant,  
os yw'n bosib.

#### Erthygl 19:

Mae gennyt ti'r hawl i gael dy amddiffyn rhag cael  
dy frifo neu dy drin yn wael.

#### Erthygl 20:

Mae gennyt ti'r hawl i dderbyn gofal priodol os  
nad wyt ti'n gallu byw gyda dy deulu dy hun.

#### Erthygl 21:

Os nad wyt ti'n byw gyda dy rieni, mae gennyt  
ti'r hawl i fyw yn y lle gorau i ti.

#### Erthygl 22:

Os wyt ti'n ffoadur (refugee), mae gennyt ti'r hawl  
hawliau ag unrhyw blentyn arall yn y wlad.

#### Erthygl 23:

Os oes anabledd gyda ti, mae gennyt ti'r hawl i  
dderbyn gofal a chefnogaeth arbennig er mwyn  
i ti fedru byw bywyd llawn, annibynnol.

#### Erthygl 24:

Mae gennyt ti'r hawl i gael dŵr glân, bwyd  
maethlon, amgylchedd glân a gofal iechyd da.

#### Erthygl 25:

Os nad wyt ti'n byw gyda dy deulu, mae gennyt ti'r  
hawl i'r gofal rwy'ti'n derbyn i gael ei wirio'n rheolaidd.

#### Erthygl 26:

Mae gennyt ti'r hawl i gefnogaeth gan y Llywodraeth  
os nad oes gan dy deulu ddigon o arian i fyw.

#### Erthygl 27:

Mae gennyt ti'r hawl i dŷ addas, bwyd a dillad.  
Rhaid i lywodraethau helpu teuluoedd sy'n methu  
fforddio darparu hyn.

#### Erthygl 28:

Mae gennyt ti'r hawl i gael addysg.

#### Erthygl 29:

Mae gennyt ti'r hawl i fod y gorau gallet fod.  
Rhaid i addysg dy helpu i ddatblygu dy sgiliau  
a dy ddoniau yn llawn.

#### Erthygl 30:

Mae gennyt ti'r hawl i siarad dy iaith dy hun a  
dilyn ffordd dy deulu o fyw.

#### Erthygl 31:

Mae gennyt ti'r hawl i ymlacio a chwarae.

#### Erthygl 32:

Mae gennyt ti'r hawl i gael dy ddiogelu rhag  
gwaiht sy'n beryglus.

#### Erthygl 33:

Mae gennyt ti'r hawl i gael dy ddiogelu rhag  
cyffuriau peryglus.

#### Erthygl 34:

Ddylai neb gyffwrdd â ti mewn ffyrdd sy'n gwneud  
i ti deimlo'n anghyfforddus, yn annigol neu'n drist.

#### Erthygl 35:

Mae gennyt ti'r hawl i beidio â chael dy gipio,  
dy werthu neu dy fasnachu.

#### Erthygl 36:

Mae gennyt ti'r hawl i gael dy gadw'n ddiogel  
rhag pethau a allai niweidio dy ddatblygiad.

#### Erthygl 37:

Mae gennyt ti'r hawl i beidio â chael dy gosbi  
mewn ffordd greulon neu sy'n brifo.

#### Erthygl 38:

Mae gennyt ti'r hawl i gael dy amddiffyn yn ystod  
rhyfel ac i beidio ymladd yn y fyddin os wyt ti o dan 15.

#### Erthygl 39:

Mae gennyt ti'r hawl i helpu arbennig os wyt ti wedi  
cael dy frifo neu dy gamdrin.

#### Erthygl 40:

Mae gennyt ti'r hawl i helpu cyfreithiol ac i gael dy drin yn  
deg os wyt ti wedi cael dy gyhuddo o dorri'r gyfraith.

#### Erthygl 41:

Os yw cyfreithiau dy wlad yn dy amddiffyn yn well  
na'r hawliau yn y rhestr yma, dylai'r cyfreithiau yna  
aros yn eu lle.

#### Erthygl 42:

Rhaid i'r Llywodraeth roi gwybod i blant a  
teuluoedd am hawliau plant.

#### Erthygl 43-54:

Mae'r rhain yn trafod sut mae rhaid i oedolion a'r  
Llywodraeth weithio gyda'i gilydd i wneud yn siŵr  
bod pob plentyn yn derbyn eu hawliau.

#### Oes angen i ti drafod problem gyda ni?

Mae ein gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor am ddim ac yn gyfrinachol. Mae yno i helpu ac i gefnogi plant a'u teuluoedd.

Cysyllta â ni i weld sut gallwn helpu:

Ffôn: 0800 801 1000 E-bost: [enw@comisiynyddplant.cymru](mailto:enw@comisiynyddplant.cymru)

#### Cysyllta â ni

Gwefan: [www.comisiynyddplant.cymru](http://www.comisiynyddplant.cymru)

E-bost: [post@comisiynyddplant.cymru](mailto:post@comisiynyddplant.cymru)

0800 801 1000

## Fideo - Rhoi 'Sylw Dyledus' i'r Confensiwn

Cliciwch ar ganol y llun isod (gyda'r cyflwyniad mewn fformat 'Slide Show') er mwyn gwyllo'r fideo. Os oes problem mae linc yn y nodiadau o dan y sleid.



## Video – Having 'Due Regard' to the Convention

*Click on the middle of the image below (with the presentation in 'Slide Show') in order to watch the video. If there is a problem the link is on the notes page underneath this slide.*



<https://www.youtube.com/watch?v=1O2MHPccty0>


@complantcymru  
@childcomwales

comisiynyddplant.cymru  
childrenscommissioner.wales

## **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau**

Lluniwyd Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau – cyfeirir ato weithiau fel Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl i adlewyrchu'r model cymdeithasol o anabledd – yn y Cenhedloedd Unedig gan gynrychiolwyr o wledydd a gan bobl anabl. Cafodd y Confensiwn ei gymeradwyo yn y Deyrnas Unedig ym mis Mehefin 2009. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi bwriad i ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau yng nghyfraith Cymru. Mae 184 o wledydd ledled y byd wedi mabwysiadu'r Confensiwn.

Mae diben y Confensiwn wedi'i amlinellu yn Erthygl 1 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau fel hyn: 'to promote, protect and ensure the full and equal enjoyment of all human rights and fundamental freedoms by all persons with disabilities, and to promote respect for their inherent dignity'



<https://youtu.be/szl3RtMXQhw>

@complantcymru  
@childcomwales

comisiynyddplant.cymru  
childrenscommissioner.wales

Pssst! Ydych chi wedi clywed am....

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar y

# Hawliau Pobl ag Anableddau

Eisiau gwybod mwy am eich hawliau a'r Confensiwn? Ewch i [www.enable.org.au](http://www.enable.org.au)

Dyma rai o'r Erthyglau pwysicaf o'r UNCRPD

|                                                                                                                                     |                                                                                                                                                     |                                                                                                                                       |                                                                                                                         |                                                                                                                                                        |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <br>Bod yn Gyfartal                                | <br>Hawliau cyfartal i<br>fartal i<br>Fenywod<br>a Phlant<br>Anabl | <br>Ymwybyddiaeth<br>Cymunedol                       | <br>Mynediad                          | <br>Hawl i<br>Fwyd                                                  |
| Erthygl 5                                                                                                                           | Erthygl 6 & 7                                                                                                                                       | Erthygl 8                                                                                                                             | Erthygl 9                                                                                                               | Erthygl 10                                                                                                                                             |
| <br>Diogel mewn<br>Argyfyngau                      | <br>Cydraddoldeb<br>yn y Gyfraith                                  | <br>Cyfiawnder<br>r Gyfartal                         | <br>I fod yn rhydd ac<br>yn ddogel    | <br>Peidio â<br>chael eich<br>arteithio<br>na'ch trin<br>yn greulon |
| Erthygl 11                                                                                                                          | Erthygl 12                                                                                                                                          | Erthygl 13                                                                                                                            | Erthygl 14                                                                                                              | Erthygl 15                                                                                                                                             |
| <br>Amddiffyn rhag trais a<br>chamdriniaeth        | <br>Cael eich<br>parchu fel<br>person yn gyntaf                    | <br>Symud i<br>wahanol<br>ardaloedd<br>a<br>gwledydd | <br>Byw'n Annibynnol<br>yn y Gymuned  | <br>Cymorth a<br>chefnogaeth i<br>symud o<br>gwmpas                 |
| Erthygl 16                                                                                                                          | Erthygl 17                                                                                                                                          | Erthygl 18                                                                                                                            | Erthygl 19                                                                                                              | Erthygl 20                                                                                                                                             |
| <br>Rhyddid i<br>Lefaru a'r<br>Hawl i<br>Wybodaeth | <br>Preifatrwydd                                                   | <br>Hawl i Deulu a<br>Pherthnasodd                   | <br>Addysg                            | <br>Gwasanaethau<br>lechydd Cyfartal                                |
| Erthygl 21                                                                                                                          | Erthygl 22                                                                                                                                          | Erthygl 23                                                                                                                            | Erthygl 24                                                                                                              | Erthygl 25                                                                                                                                             |
| <br>Gwasanaethau<br>Adsefydlu                     | <br>Hawl i Weithio                                                | <br>Ansawdd<br>cyfartal o fwyd, tai a dŵr           | <br>Bod yn rhan o<br>Fwyd Gwledyddol | <br>Cymryd rhan mewn<br>Chwaraeon,<br>Celfyddydau a Hamdden        |
| Erthygl 26                                                                                                                          | Erthygl 27                                                                                                                                          | Erthygl 28                                                                                                                            | Erthygl 29                                                                                                              | Erthygl 30                                                                                                                                             |

Rhaid i chi gael eich cynnwys ym mhob penderfyniad am eich bywyd

## Dim Amdanaf Fi Hebof Fi

## **Gweithgaredd 1: Hawliau a allai fod yn bwysig i'ch rôl fel gweithiwr proffesiynol**

Defnyddiwch [boster](#) Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a [fersiwn hawdd ei ddeall](#) o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau i ddarllen yr erthyglau, gan ddewis 3 o bob confensiwn sy'n bwysig i'ch rôl yn eich barn chi.

## **Gweithgaredd 2: Corff hawliau – beth mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau yn ei olygu i blant**

Mewn grŵp neu fel gweithgaredd unigol, ewch ati i luniadu siâp corff ar ddarn mawr o bapur. Os mai plentyn neu berson ifanc sy'n tyfu i fyny yng Nghymru yw hwn, trafodwch beth rydych chi'n meddwl sydd ei angen arnyn nhw, a beth maen nhw ei eisiau er mwyn tyfu i fyny mewn ffordd hapus, iach a diogel. Ysgrifennwch eu hanghenion yng nghanol y corff a beth maen nhw ei eisiau ar y tu allan (gan ddefnyddio nodiadau gludiog neu feiro).

Defnyddiwch boster Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'r fersiwn hawdd ei ddeall o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (fel yng Ngweithgaredd 1) i ddarllen yr erthyglau ac ystyried sut maen nhw'n cyfateb i'r anghenion rydych chi wedi'u nodi.


# Y 5 EGWYDDOR THE 5 PRINCIPLES

- Ymgorffori CCUHP
- Cydraddoldeb a pheidio â chamwahaniaethu
- Grymuso plant
- Cyfranogiad
- Atebolrwydd

- Embedding the UNCRC
- Equality and non-discrimination
- Empowering Children
- Participation
- Accountability



# Comisiynydd Plant Cymru Children's Commissioner for Wales



Sut allwn ni ymgorffori'r erthyglau yn y dosbarth?

# TASG 6 (5 munud)

## TASK 6 (5 minutes)



<https://www.youtube.com/watch?v=0cQqjWIVp8k> (Cymraeg)

[https://www.youtube.com/watch?v=WSpfLMV3\\_sA](https://www.youtube.com/watch?v=WSpfLMV3_sA) (English)


### TASG:

Wedi gwyllo'r fideo, ystyriwch sut y gallech chi wneud yn siŵr bod hawliau plant yn cael eu cynnwys yn eich dosbarth chi. Nodwch eich syniadau ar ffurf pwyntiau bwled.

### TASK:

After watching this video, consider how you can ensure that children's rights are included in your classroom.  
Note some ideas in bullet point format.

CWIS!



[View - Hwb](#)

# DARLLEN PELLACH FURTHER READING



Er mwy cael trosolwg mwy cyflawn o  
Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar  
Hawliau'r Plentyn, dilynwch y ddolen  
hon ac edrychwch ar y cyflwyniadau  
a'r adnoddau yma:

<https://www.complantcymru.org.uk/cuhip-hawliau-plant/adnoddau-ccuhip/>



For a more comprehensive overview  
of the United Nations Convention on  
the Rights of the Child, follow this link  
and go through these presentations  
and resources:

<https://www.childcomwales.org.uk/un-crc-childrens-rights/rights-resources-universities-colleges/>

# Adnoddau eraill

Dyma rai adnoddau eraill a allai fod yn ddefnyddiol i chi.

- [Cynlluniau Llysgenhadon Comisiynydd Plant Cymru](#)
- [Adnoddau Comisiynydd Plant Cymru ar gyfer gweithwyr addysg proffesiynol](#)
- [Adnoddau Ysgolion sy'n Parchu Hawliau UNICEF](#) (Saesneg yn unig)
- [Adnoddau Anabledd Cymru](#)
- [United Nations Human Rights Office of the High Commissioner – pecyn hyfforddi Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau](#) (Saesneg yn unig)
- [Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau](#) (Saesneg yn unig)
- [Adnoddau addysg hawliau dynol Amnesty International UK](#) (Saesneg yn unig)
- [Adnoddau Blynyddoedd Cynnar Plant yng Nghymru](#)
- [Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol](#) (Saesneg yn unig)
- [Anabledd Cymru: Hawliau yma, hawliau nawr - adnoddau](#)